# Prisio yn y siop – ydych chi'n torri'r gyfraith?

Department for the Economy
An Roinn Geilleagair
www.economy-ni.gov.uk

CMA
Competition & Markets Authority

ctsi
Chartered Trading Standards Institute

SCOTSS
Trading Standards

## Mae'n rhaid i chi arddangos y pris gwerthu llawn yn ysgrifenedig.

**Dylai fod yn amlwg i'ch cwsmeriaid beth yw'r pris, heb iddynt orfod mynd ar ofyn aelod o staff er mwyn cael help. Dylai prisau:**

- **fod yn cael eu harddangos yn eglur;**
- **fod yn hawdd i'w darllen;**
- **fod yn agos at y cynnyrch perthnasol; a**
- **Bod yn cyfateb i'r hyn mae'r cwsmer yn cael ei godi wrth y til.**







1 Os oes gan eich siop arwynebedd llawr neu arddangosfa sydd dros 280m² (metr sgwâr, mae'n rhaid i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol am 'bris uned'

## Dim gwybodaeth pris yn cael ei darparu.



1 Prisiau heb gael eu hard dangos ym mhob ardal o'r siop

2 Peidiwch â chuddio'r pris y tu ôl i gynnyrch neu labeli eraill



## Peidiwch ag arddangos gwahanol brisiau am yr un cynnyrch.




1 £1.00 ar y botel ond £2.00 yn cael ei arddangos ar y silff

2 Dau bris gwahanol ar gyfer cynnyrch o’r un math yn union




## Mae’n rhaid i chi sicrhau bod y pris yn cyfateb i’r hyn rydych chi’n ei godi wrth y til.







Wrth godi prisiau – gwnewch yn siŵr bod y labeli ar y silff wedi cael eu newid cyn codi pris gwahanol wrth y til.

## Peidiwch ag arddangos label pris anghywir wrth ochr cynnyrch.




**Os yw eich prisiau’n anghywir, gallech fod yn torri’r gyfraith. Peidiwch â chamarwain cwsmeriaid. Gall sefydliadau, megis Safonau Masnach, neu’r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) gymryd camau – gallech gael eich dirwyo.**

**Am ragor o gyngor ar ddarparu gwybodaeth am brisiau ewch i:**
**www.businesscompanion.info a chwiliwch am ‘groviding price information’**

**Yng Ngogledd Iwerddon – ewch i:**
**www.nibusinessinfo.co.uk/content/pricing-information**